



ADRODDIAD YMGYNGHORI

Cynnig i gau Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint, (Ysgol Cyfrwng Saesneg, Gymunedol) o 31 Awst 2016 gyda disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion eraill yn yr ardal leol yn amodol ar ddewis y rhieni.

RHAGFYR 2015

Mynegai

Nifer	Adran	Tudalen
1	Cyflwyniad	3
2	Y Cynnig a'r Ymgynghoriad	3
3	Digwyddiadau / Cyfarfodydd Ymgynghori	4
4	Ymatebion i'r Ymgynghoriad	5
5	Ffurflenni ymateb a gohebiaeth	7
6	Ymateb gan Estyn	9
7	Ymateb gan Aelodau Seneddol	11
8	Ymateb gan Lywodraethwyr	11
Atodiad A	Rhestr o rai sy'n derbyn y Ddogfen Ymgynghori	
Atodiad B	Crynodeb o faterion a godwyd mewn cyfarfodydd	
Atodiad C	Canfyddiadau'r Cyngor Ysgol	
Atodiad D	Cofnodion Pennaeth/Llywodraethwyr	
Atodiad E	Crynodeb o'r ymatebion i'r ffurflen ymateb safonol	
Atodiad F	Crynodeb o faterion ac ymatebion	
Atodiad G	Ymateb Estyn i'r Ddogfen Ymgynghori Ffurfiol	
Atodiad H	Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol i'r Ddogfen Ymgynghori Ffurfiol	
Atodiad I	Ymateb y Llywodraethwyr i'r Ddogfen Ymgynghori Ffurfiol	

1. Cyflwyniad

1.1 Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori trefniadaeth ysgolion ddod i ben, mae Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru yn mynnu bod y cynigydd (y Cyngor) yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori. Yn y ddogfen hon mae gofyn i'r cynigydd:

- Roi crynodeb o'r materion a godwyd gan y rhai a ymgynghorwyd;
- Ymateb i'r rhain trwy eglurhad.
- Amlinellu barn Estyn (fel y darperir yn ei ymateb i'r ymgynghoriad) o ran rhinweddau cyffredinol y cynnig.

1.2 Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried yr adroddiad hwn cyn penderfynu ar unrhyw argymhelliad sy'n ymwneud â'r cynnig.

2.0 Y Cynnig a'r Ymgynghoriad

2.1 Ar ddydd Mawrth 16 Mehefin, 2015, penderfynodd y Cabinet:

Gychwyn cyfnod o ymgynghori ffurfiol gyda budd-ddeiliaid allweddol ar gyfer Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint gydag adroddiad yn y dyfodol i Cabinet.

2.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar ddydd Mercher 21 Hydref, 2015 a daeth i ben ar ddydd Mercher 2 Rhagfyr 2015.

2.3 Yn unol â'r cod, cyhoeddwyd y dogfennau ymgynghori ar wefan Cyngor Sir y Fflint, ddydd Mercher 21 Hydref 2015, a darparwyd dolen i'r dogfennau ymgynghori i fudd-ddeiliaid. Mae rhestr gyflawn o dderbynwyr i'w gweld yn **Atodiad A.**

2.4 Cyhoeddwyd fersiwn arbennig o'r ddogfen ymgynghori, ar gyfer plant ysgol gynradd, ar wefan Cyngor Sir y Fflint a darparwyd copi caled i holl ddisgyblion Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint gyda chopi i Gyngor yr Ysgol yn Ysgol Gwynedd, Y Fflint, Ysgol Cornist, Y Fflint ac Ysgol Owen Jones, Llanelwain. Mae copïau o'r ddau fersiwn o'r ddogfen ymgynghori ar gael yn yr adran moderneiddio ysgolion ar wefan Cyngor Sir y Fflint ar y ddolen ganlynol: -

<http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Ysgol-Maes-Edwin-Flint-Mountain.aspx>

2.5 Mae copïau caled (5) o'r dogfennau ymgynghori wedi eu cyflwyno i Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint; Ysgol Gwynedd, Y Fflint; Ysgol Cornist, Y Fflint; ac Ysgol Owen Jones, Llanelwain i bobl ei weld os na allent gael

mynediad i'r wefan. Roedd copïau caled hefyd ar gael ar gais ac naill ai'n cael eu postio neu eu casglu o Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug.

- 2.6 Roedd blwch post ar gael yn Ysgol Maes Edwin ar gyfer postio ymatebion i'r ymgynghoriad a'u casglu gan aelod o'r Tîm Moderneiddio Ysgolion.
- 2.7 Cynhyrchodd y Cyngor ddogfen ymateb (ffurflen ymateb safonol) i gynorthwyo ac annog pobl i roi eu barn. Roedd hyn yn rhan o'r ddogfen ymgynghori a chafodd ei chyhoeddi hefyd ar wefan y Cyngor. Roedd y fersiwn plant a phobl ifanc o'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys ffurflen ymateb symlach. Cafodd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ei drawsnewid i arolwg ar-lein. Cyhoeddwyd y dolenni i'r arolwg hefyd ar y wefan.
- 2.8 Derbyniodd yr holl ymgynghoreion e-bost gyda'r ddolen yn eu cyfeirio at y ddogfen ymgynghori ffurfiol a'r dogfennau ategol ar ddiwrnod cyntaf yr ymgynghoriad (21 Hydref, 2015).
- 2.9 Cynhyrchwyd dogfennau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

3.0 Digwyddiadau/Cyfarfodydd Ymgynghori

- 3.1 Er nad yw'n ofyniad o dan y Cod, cynhaliodd y Cyngor gyfarfodydd ymgynghori ar wahân ar ddydd Mercher, 11 Tachwedd, 2015 yn Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint gyda:

Athrawon a staff cymorth a chorff llywodraethu Ysgol Maes Edwin

Mynychodd swyddogion o Gyngor Sir y Fflint y cyfarfodydd hyn. Hysbysodd y swyddogion y rhai hynny'n bresennol yn y cyfarfodydd ynglŷn â'r broses hyd yn hyn a beth fyddai'n digwydd pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo. Roedd cyfle i'r mynychwyr i ofyn cwestiynau ac i fynegi eu safbwyntiau a'u barn.

Cynhaliwyd cyfarfod ychwanegol gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Maes Edwin ar ddydd Iau, 26 Tachwedd 2015.

Rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid disgyblion yn Ysgol Maes Edwin

Cynhaliwyd y cyfarfod rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid yn Ysgol Maes Edwin. Mae pob rhiant/gofalwr/gwarcheidwad wedi derbyn llythyr sy'n cynnwys y dyddiad, amser a lleoliad yn gofyn iddynt gofrestru eu presenoldeb ar gyfer y digwyddiad.

Mae'r digwyddiad ymgynghori wedi galluogi rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid i gwrdd â chynrychiolwyr y Cyngor a gofyn cwestiynau neu dynnu sylw at faterion a oedd yn berthnasol iddynt hwy fel unigolion a hefyd safbwyntiau ehangach ynghylch yr ysgol a'r gymuned.

Gallwch ddarllen crynodeb o'r pwyntiau a godwyd yn y digwyddiadau/cyfarfodydd ymgynghori hyn, ynghyd â'r ymatebion a roddwyd ar y pryd yn **Atodiad B**.

3.2 Mae Llywodraethwyr Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint wedi gofyn i'r Cyngor i beidio â chyfarfod gyda Chyngor yr Ysgol yn Ysgol Maes Edwin, Mynydd Y Fflint. Teimlai'r Llywodraethwyr bod y disgyblion eisoes wedi cyflwyno eu barn ar y bwriad i gau'r ysgol mewn fformat llythyr. Cadarnhaodd y Corff Llywodraethu drwy ohebiaeth dyddiedig 11 Tachwedd, 2015 a 30 Tachwedd 2015 eu bod yn fodlon fod y disgyblion wedi gallu cyflwyno eu barn ynghylch y cynnig i gau ysgol. Roeddent yn gadarn o'r farn nad oedd er budd y plant i gael profiad o'r pryder a gofid i gyd eto drwy gwblhau'r fersiwn o'r ddogfen ymgynghori i blant a phobl ifanc.

3.3 Cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori hefyd gyda chyngor yr ysgol yn Ysgol Gynradd Gymunedol Cornist ac Ysgol Owen Jones, Llaneurgain. Roedd y digwyddiadau wedi eu hwyluso gan Ymarferydd Arweiniol Ysgolion Iach sy'n gyfrifol am ymgysylltu ac ymgynghori â disgyblion. Roedd aelod o'r Tîm Moderneiddio Ysgolion hefyd yn bresennol yn y cyfarfodydd Cyngor Ysgol. Dewisiodd Ysgol Gwynedd, Y Fflint i hwyluso eu cyfarfod eu hunain gyda'r cyngor ysgol yn trafod y cynnig.

Mae'r llythyr oddi wrth y Llywodraethwyr a chanfyddiadau o gyfarfodydd Cyngor yr Ysgol i'w gweld yn **Atodiad C**.

3.4 Cyfarfu'r Tîm Moderneiddio Ysgolion gyda Phennaeth a Chadeirydd Llywodraethwyr yr ysgolion cyfagos a effeithir arnynt sef Ysgol Gwynedd, Y Fflint; Ysgol Cornist, Y Fflint ac Ysgol Owen Jones, Llaneurgain.

Amlinellir cofnod o gyfarfodydd y Penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr yn Atodiad D.

4.0 Ymatebion i'r Ymgynghoriad

4.1 At ei gilydd, daeth 197 o ymatebion i law cyn ac yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r rhain yn cynnwys ymateb gan Estyn ar ffurf adroddiad. Roedd nifer o ymatebion wedi'u derbyn ar ffurflenni ymateb electronig a llythyrau.

4.2 Mae'r tabl isod yn dangos y dulliau y defnyddiodd pobl i ymateb i'r ymgynghoriad:

Dull Cysylltu	Nifer y Cysylltiadau a Dderbyniwyd
Ffurflenni Ymateb i'r Ymgynghoriad	53
Ffurflenni Ymateb Plant a Phobl Ifanc	5
Llythyrau a negeseuon E-bost	56
Llythyrau ac E-byst - Plant a Phobl Ifanc	83
Cyfanswm nifer y cysylltiadau	197

4.3 Rhestrir nifer y cysylltiadau a wnaed cyn ac yn ystod yr ymgynghoriad ar y dudalen nesaf.

<u>Dull cysylltu</u>	<u>Cyn yr Ymgynghoria d</u>	<u>Yn ystod yr Ymgynghoria d</u>	<u>Ar ôl yr Ymgynghori ad</u>	<u>Cyfansw m y Cysylltiad au a Dderbyni wyd</u>
Ffurflenni Ymateb i'r Ymgynghoriad (ar-lein)	0	53	0	53
Llythyrau a negeseuon E-bost	15	31	0	46
Ymatebion Llywodraethwyr Ysgolion	0	3	0	3
Ffurflenni Ymateb Plant a Phobl Ifanc	0	5	0	5
Llythyrau ac E-byst - Plant a Phobl Ifanc	80	0	0	80
Ymatebion y Cyngor Ysgol	0	3	0	3
Ymateb yr Undeb	0	1	0	1
Ymateb Estyn	0	1	0	1
Ymateb AC ac AS	4	1	0	5
Cyfanswm nifer y cysylltiadau	99	98	0	197

4.4 Mae dadansoddiad o amlder achosion sy'n cael eu codi o fewn gohebiaeth a dderbyniwyd gan Oedolion yn tynnu sylw at y materion canlynol:

Safle	Achos	Disgrifiad	Amllder yr achos a godwyd
1	Effaith ar ddisgyblion	Pryder am effaith cau'r ysgol ar y disgyblion presennol. Pryder y bydd grwpiau cyfoedion a brodyr a chworydd yn cael eu gwahanu, nid yw lles emosiynol wedi ei ystyried.	30
2	Cryfderau Ysgol Maes Edwin	Mae gan yr ysgol nifer o bethau cadarnhaol, mae'n ysgol deuluol, ac mae'n ysgol gymunedol hyfryd. Mae'r ysgol mewn adeilad hyfryd. Mae'r adeilad yn cydymffurfio â DDA. Mae gan yr ysgol staff addysgu cefnogol hyfryd. Mae gan yr ysgol lawer o weithgareddau/clybiau/teithiau ychwanegol.	57
3	Effaith ar y gymuned	Byddai cau'r ysgol yn cael effaith sylweddol ar y gymuned leol. Mae'r ysgol wrth galon y gymuned	13

		ac wedi bod yno ers 103 o flynyddoedd.	
4	Dogfen Ymgynghori	Nid yw'r wybodaeth yn y ddogfen ymgynghori yn gywir. Mae'r wybodaeth wedi dyddio. Mae'r adroddiad Estyn ar gyfer yr ysgol yn hen. Mae'r ddogfen yn dangos rhagfarn ac yn negyddol. Mae'r wybodaeth ar gyfer atgyweirio'r to yn ymddangos yn uchel ac yn anghywir.	13
5	Dewis rhieni	Dewis Rhieni wedi cael ei dynnu i ffwrdd	11
6	Awgrymiadau eraill: Ffederasiwn ar gyfer yr ysgol	Dylai'r ysgol allu ystyried creu Ffederasiwn.	8
7	Datblygu Tai hy Datblygiad Croes Atti	Nid yw datblygu tai lleol yn yr ardal leol wedi cael ei ystyried yn llawn.	8
8	Cysylltiadau teuluol gyda'r ysgol	Cais y dylai brodyr a chwiorydd allu mynychu'r ysgol hon. Cysylltiadau teuluol gyda'r ysgol ac mae nifer o deuluoedd wedi mynychu'r ysgol yn hanesyddol.	5
9	Gofal plant	Dim cludiant i ddisgyblion fynychu gweithgareddau allgyrsiol.	5
10	Cyflwr yr adeilad	Arian DDA wedi ei wario ar yr Ysgol	4
11	Y Broses Ymgynghori	Gweithdrefnau cywir wedi'u dilyn?	2
12	Ysgolion eraill yn llawn	Ysgolion cyfagos wedi cyrraedd eu Niferoedd Derbyn mewn rhai grwpiau blwyddyn	4
13	Traffig a chludiant	Traffig ychwanegol heb gael ei gymryd i ystyriaeth	1
14	Sylwadau cefnogi'r cynnig	Yn cefnogi'r cynnig. Mae rhesymeg glir dros gefnogi'r cynnig.	1

4.5 Mae dadansoddiad o amllder achosion sy'n cael eu codi o fewn gohebiaeth Plant a Phobl Ifanc yn tynnu sylw at y materion canlynol:

Safle	Achos	Disgrifiad	Amllder y mater a godwyd
1	Effaith ar ddisgyblion	Pryder am effaith cau'r ysgol ar y disgyblion presennol. Pryder y bydd grwpiau cyfoedion a brodyr a chwiorydd yn cael eu gwahanu,	117

		lles emosiynol heb gael ei ystyried.	
2	Cryfderau Ysgol Maes Edwin	Mae gan yr ysgol nifer o bethau cadarnhaol, mae'n ysgol deuluol, ac mae'n ysgol gymunedol hyfryd. Mae'r ysgol mewn adeilad hyfryd. Mae'r adeilad yn cydymffurfio â DDA. Mae gan yr ysgol staff addysgu cefnogol hyfryd. Mae gan yr ysgol lawer o weithgareddau/clybiau/teithiau ychwanegol.	78
3	Effaith ar y gymuned	Byddai cau'r ysgol yn cael effaith sylweddol ar y gymuned leol. Mae'r ysgol wrth galon y gymuned ac wedi bod yno ers 103 o flynyddoedd.	8
4	Dogfen Ymgynghori	Nid yw'r wybodaeth yn y ddogfen ymgynghori yn gywir. Mae'r wybodaeth wedi dyddio. Mae adroddiad Estyn ar gyfer yr ysgol yn hen. Mae'r ddogfen yn dangos rhagfarn ac yn negyddol. Mae'r wybodaeth ar gyfer atgyweirio'r to yn ymddangos yn uchel ac yn anghywir.	4

* Roedd ymatebwyr yn gallu nodi mwy nag un rheswm. Mae hyn yn esbonio pam fod y cyfanswm yn fwy na nifer yr ymatebwyr

4.6 Mae dadansoddiad o amllder achosion yn cael ei godi o fewn gohebiaeth Fe dynnodd gohebiaeth Plant a Phobl Ifanc sylw at y materion canlynol:

Safle	Achos	Disgrifiad	Amllder y mater a godwyd
1	Awgrymiadau eraill	Adeiladu estyniad ar Ysgol Maes Edwin fel y gall mwy o ddisgyblion fynychu	6
		Digwyddiad Codi arian ar gyfer Maes Edwin i ymestyn eu hysgol	3
		Dymchwel yr ysgol ac adeiladu rhywbeth arall	3
		Cau'r ysgol, ailgynllunio a'i ail-agor unwaith eto	10
2	Effaith ar ysgolion eraill	Mwy o ddisgyblion i fynd i Ysgol Maes Edwin o ysgolion sy'n llawn	4
3	Effaith ar ddisgyblion	Lles emosiynol	13
		Colli Ffrindiau	7
		Bwlio	8

		Lle byddai disgyblion yn mynd i'r ysgol	3
4	Sylwadau cefnogi'r cynnig	Mwy o bobl yn cefnogi ein ysgol	3
		Gwneud ffrindiau newydd	31
5	Gwisgoedd	Byddai'n rhaid prynu gwisgoedd newydd	2
6	Effaith ar Athrawon a Staff Cefnogi	Byddai athrawon yn colli eu swyddi	4
7	Cymuned	Beth fyddai'n digwydd i'r adeilad?	1
8	Cludiant	Mae bysiau'n rhedeg drwy'r pentref ac mae'n cymryd amser hir oherwydd y ffyrdd	1
		Sut y byddent yn cyrraedd eu hysgol newydd?	1

4.7 Mae ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd i'w gael yn **Atodiad E**.

5.0 Ffurflenni ymateb a gohebiaeth

5.1 Mae'r ffurflen ymateb safonol wedi'i lunio i sefydlu:

- ydi pobl o blaid y Cynnig ai peidio;
- y gallu yr oeddent yn ymateb;
- a ydynt yn gysylltiedig â'r ysgol ai peidio;
- beth ddylanwadodd ar eu barn ar y Cynnig ac unrhyw sylwadau gadarnhaol neu negyddol ganddynt;
- a fyddent yn anfon eu plentyn (plant) i'r ysgolion arfaethedig ai peidio pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu; a
- oeddent yn awyddus i wneud unrhyw sylwadau eraill.

5.2 Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ffurflen ymateb safonol wedi'u nodi yn **Atodiad F**.

5.3 Ar y ffurflenni ymateb, rydym yn gofyn i bobl i gadarnhau a oeddent yn ymateb fel disgybl, rhiant, gofalwr, llywodraethwr, athro, staff cymorth, preswylydd lleol neu arall. Mae manylion o'r ymatebwyr i'w gweld yn **Atodiad F**.

6.0 Ymateb gan Estyn

Mae'r prif bwyntiau a wnaed gan Estyn mewn ymateb i'r cynnig ac ymateb y Cyngor wedi'u nodi isod. Mae ymateb llawn gan Estyn wedi'i nodi yn **Atodiad G**.

Sylw gan Estyn	Sylwadau sy'n gofyn am ymateb
Mae'r cynigydd wedi rhoi rhesymeg glir o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â chyllid, lleoedd	Amh.

dros ben ac mae'r dilyniant a pharhad yn addysgu'r disgyblion.	
Mae'r cynnig yn diffinio'n glir manteision disgwylidig y cynnig sy'n cysylltu'n dda â'r diben a nodwyd o resymeg. Mae'r awdurdod lleol wedi darparu digon o dystiolaeth i ddangos bod y cynllun yn debygol o gynnal y safon addysg yn o leiaf ardal Mynydd Y Fflint, Y Fflint a Llanceurgain.	Amh.
Mae'r cynnig yn nodi manteision y cynnig, sy'n cynnwys y defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau; gostyngiad o leoedd disgyblion heb eu llenwi o fewn y rhwydwaith ysgolion cynradd; ac o leiaf yn cynnal y safonau cyfredol ac ansawdd yr addysg yn yr ardal; a gostyngiad mewn teithio i'r ysgol ar gyfer y mwyafrif o ddisgyblion pe baent yn dewis eu hysgol leol.	Amh.
Mae'r cynigydd wedi nodi'n briodol yr anfanteision i'r cynnig presennol, sy'n canolbwyntio ar effaith cau Ysgol Maes Edwin ar y staff a gyflogir ar hyn o bryd yn yr ysgol, diwedd darpariaeth cynradd cyfrwng Saesneg ym mhentref Mynydd Y Fflint a'r cynnydd mewn amser teithio i rai disgyblion sy'n byw yn y pentref.	Amh.
Mae'r awdurdod lleol wedi darparu tystiolaeth glir i ddangos ei fod wedi ystyried dewisiadau eraill i'r cynnig presennol. Mae'r rhain yn cynnwys cynnal y sefyllfa sydd ohoni a ffedereiddio Ysgol Maes Edwin gydag ysgol leol arall. Maent wedi dangos yn glir fanteision ac anfanteision pob opsiwn, a'r rhesymau dros eu opsiwn o ddewis.	Amh.
Mae'r cynigydd wedi ystyried effaith y cynnig ar drefniadau teithio disgyblion. Mae'n bwriadu cefnogi cludiant o'r cartref i'r ysgol yn unol â pholisi cludiant y Cyngor. Mae'n cydnabod ymhellach y bydd y cynnig o bosibl yn arwain at lai o deithio ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Maes Edwin. Fodd bynnag, mae'r cynigydd yn cydnabod y byddai'r amser teithio yn cynyddu i ychydig o ddisgyblion yn byw ym Mynydd Y Fflint, ond ni fyddai hyn yn fwy na'r hyn a nodir yng nghanllawiau teithio disgyblion.	Amh.
Mae'r cynnig wedi dangos yn briodol sut y bydd y cynnig yn effeithio lleoedd dros ben drwy ddarparu niferoedd disgyblion a lleoedd gwag yn 2015 ar gyfer ysgolion yn yr ardal.	Amh.
Mae'r cynnig yn ymddangos o fod wedi cymryd ystyriaeth briodol o effaith y cynnig ar yr Iaith Gymraeg a hygyrchedd darpariaeth cyfrwng Gymraeg yn unol â dewis rhieni.	Amh.
Mae'r cynigydd wedi ystyried yn rhesymol dda effaith y cynnig ar ansawdd y canlyniadau, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn Ysgol Owen Jones. Mae'r cynigydd wedi ystyried canlyniadau adroddiadau arolygu diweddaraf Estyn a phob categori ysgol mewn perthynas â'r system Categori Ysgolion Cenedlaethol ar ansawdd arweinyddiaeth a deilliannau disgyblion. Mae crynodeb y cynigydd o ganlyniadau ar gyfer y pedair ysgol yn glir ac yn cymharu'n briodol â chyfartaledd ysgolion lleol, cenedlaethol a theuluoedd. Fodd bynnag, nid yw'r cynigydd wedi rhoi sylwadau ar	Er nad yw'n ofyniad penodol o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, yn y dyfodol bydd yr holl adroddiadau ymgynghori yn cynnwys cymhariaeth o berfformiad disgyblion n-PYDD a disgyblion e-PYD.

gymariaethau ag ysgolion tebyg ar sail yr hawl i brydau ysgol am ddim.	
Mae'r cynigydd wedi ystyried yn briodol effaith debygol y cynigion ar safonau, lles a chyflwyno'r cwricwlwm. Mae'r cynigydd yn honni'n rhesymol na fyddai'r cynnig yn cael effaith anffafriol ar y safonau a darpariaeth bresennol yn Ysgol Gwynedd, Ysgol Cornist ac Ysgol Owen Jones, Llaneurgain.	Amh.
Mae'r cynigydd wedi cynnal asesiad effaith cydraddoldeb priodol, sy'n ystyried effaith y cynnig ar grwpiau diamddiffyn gan gynnwys y rhai sydd ag anabledau neu anghenion addysgol arbennig.	Amh.

7.0 Ymateb gan Aelodau Seneddol

At ei gilydd, daeth 5 o ymatebion i law cyn ac yn ystod y cyfnod ymgynghori. gan Aelodau Seneddol. Mae'r tabl isod yn dangos y dulliau y defnyddiodd yr Aelodau Seneddol i'r ymateb i'r ymgynghoriad:

Dadansoddiad o'r Ymatebion gan Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol

Rhif	Math o Ymateb	Ymateb gan Aelodau Seneddol
		Aelodau Seneddol
1	Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	0
2	Llythyrau a negeseuon E-bost	5
Cyfanswm		5

Gellir gweld yr ohebiaeth gan yr Aelodau Seneddol ac ymatebion yr awdurdod yn **Atodiad H.**

8.0 Ymateb gan Lywodraethwyr

At ei gilydd, daeth 3 o ymatebion i law gan lywodraethwyr yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r tabl isod yn dangos y dulliau y defnyddiodd y lywodraethwyr i'r ymateb i'r ymgynghoriad:

Dadansoddiad o'r Ymatebion gan Lywodraethwyr

Rhif	Math o Ymateb	Cyfanswm y Llywodraethwyr a dderbyniwyd
1	Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	0
2	Llythyrau a negeseuon E-bost	3
Cyfanswm		0

Gellir gweld yr ohebiaeth gan lywodraethwyr yn **Atodiad I.**